



03.07.2023

Riant/Ofalwr,

Rwy'n ysgrifennu atoch gyda gwybodaeth am ddiweddariad pwysig i'n polisi ar ddefnyddio ffonau symudol yn yr ysgol. Fel y gwyddoch efallai, yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi cynnal nifer o ddiwyddiadau ymgysylltu â rhieni i drafod y mater hwn, ac rydym hefyd wedi cynnal arolwg o staff, siarad â myfyrwyr ac ymchwilio i bolisi a barn o nifer o ysgolion eraill, yn lleol ac yn genedlaethol.

O ganlyniad rydym wedi gwneud y penderfyniad i **wneud ein hysgol yn ofod di-ffôn o 1 Medi i gefnogi lles plant a gwellu addysgu a dysgu** gan ddefnyddio system o'r enw [Yondr](#) – system a roddwyd ar waith mewn mwy na 1,000 o ysgolion ar draws 21 o wledydd i hwyluso amgylchedd dysgu dengar.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr ymchwil sy'n sail i'n penderfyniadau yn adran Cwestiynau Cyffredin y llythyr hwn (isod) - er ein bod yn credu bod gan ffonau ran enfawr i'w chwarae mewn bywyd yn y byd modern, rydym hefyd yn gwybod bod dysgu, iechyd meddwl ac ymddygiad cymdeithasol yn gwellu'n sylweddol pan fydd myfyrwyr yn ymgysylltu'n llawn â'u hathrawon a'u cyd-ddisgyblion.

Mae Rhaglen Yondr yn defnyddio cwodyn syml, diogel sy'n storio ffôn. Bydd pob myfyriwr yn diogelu eu ffôn mewn cwodyn Yondr a neilltuwyd yn bersonol iddynt, pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol. Bydd y ffonau felly ym meddiant y myfyrwyr yn ystod y dydd ond ni fyddant yn eu defnyddio nes bod eu cydau yn cael eu hagor ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd eu cwodyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r wisg ysgol ac felly bydd gofyn i fyfyrwyr ddod â'u cwodyn Yondr i'r ysgol ac adref bob dydd a byddant yn gyfrifol am eu cwodyn bob amser. Codir tâl o £10 y cwodyn am unrhyw golled neu ddifrod i'r cwodyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol ar 01492 593243 neu drwy e-bost ar info@aberconwy.conwy.sch.uk, neu i fynychu un o'r cyfarfodydd sydd i ddod ynglŷn â mabwysiadu Yondr **ar 7 Gorffennaf 2023 am 3.30 ym**. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth am sut mae'r system yn gweithio a pham rydym yn ei mabwysiadu gyda'ch plant ar y diwrnod hwnnw, trwy gyfres o wasanaethau arbennig.

Unwaith y bydd y system wedi'i rhoi ar waith, os oes argyfwng ac yr hoffech chi gysylltu â'ch plentyn, cysylltwch â mentor arweiniol eich plentyn ar 01492 593243.

Mewn ymdrech i wneud ein gorau er mwyn eich plentyn, byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth lawn wrth fabwysiadu Rhaglen Yondr yn ein hysgol.

Gyda diolch am eich cefnogaeth barhaus,

Yn gywir iawn,

Ian Gerrard

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED

+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537

INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Sut mae Yondr yn Gweithio



As students enter school, they place their phone in their assigned Yondr Pouch.



Students close and secure their Pouch, keeping it on them throughout the day.



When leaving school, students tap their Pouch on a Base to retrieve their phone.

Cwestiynau Cyffredin

Beth os ydw i eisiau cysylltu â'm plentyn yn ystod y diwrnod ysgol?

Rydym am i'n myfyrwyr ymglymu â'u dysgu. Os oes angen i chi gysylltu â'ch plentyn yn ystod y diwrnod ysgol, cysylltwch â derbynfa'r ysgol ar 01492 593243 a byddant yn eich cysylltu â mentor arweiniol eich plentyn.

Beth os bydd angen i'm plentyn gysylltu â mi yn ystod y diwrnod ysgol?

Os oes angen i'ch plentyn gysylltu â chi, gallant ymweld â'r Porth - lle bydd staff bugeiliol naill ai'n trosglwyddo neges i chi, neu'n gallu datgloi'r cwdyn Yondr fel y gallant gysylltu â chi eu hunain.

Beth os oes argyfwng yn yr ysgol?

Os bydd argyfwng yn yr ysgol, byddwn yn cyfeirio ein myfyrwyr at fan diogel yn gyntaf, gan ddilyn ein protocolau argyfwng ysgol. Byddwn yn hysbysu rhieni trwy sianeli cyfathrebu arferol yr ysgol.

A fydd ffôn fy mhleintyn yn ddiogel?

Mae ffonau ym meddiant y myfyrwyr - yn eu cwdyn Yondr - am y diwrnod ysgol cyfan. Rydym yn cynghori myfyrwyr i storio'r cwdyn yn eu bag ysgol lle mae'n gwbl ddiogel.

Beth os yw'r cwdyn Yondr yn cael ei ddifrodi neu os yw myfyriwr yn cael eu dal ar eu ffôn?

Eiddo'r ysgol yw'r cwdyn Yondr. Os bydd myfyriwr yn difrodi eu Cwdyn, codir tâl amdano ar gost o £10 y cwdyn. Os canfyddir eich plentyn yn defnyddio eu ffôn, bydd y ffôn yn cael ei atafaelu am weddill y dydd. Os bydd hyn yn digwydd dro ar ôl tro, byddwn yn gofyn i rieni ddod i gasglu'r ffôn, fel y gallwn drafod y ffordd ymlaen gyda chi. *Sylwer: Mae difrod yn cynnwys unrhyw arwyddion bod cyfanrwydd corfforol y cwdyn wedi'i beryglu, boed yn fwriadol neu'n anfwriadol, fel y penderfynwyd gan yr ysgol neu staff Yondr.*

Beth os oes angen i'm plentyn gael mynediad i'w ffôn fel offeryn dysgu mewn gwrs?

Os yw athro yn dymuno i fyfyrwyr ddefnyddio eu ffonau mewn gwrs i gynorthwyo'r dysgu (er enghraifft i dynnu lluniau mewn gwrs Cyfryngau, neu i gymryd cwis 'Kahoot' mewn gwrs Gwyddoniaeth) bydd yn gallu datgloi'r cydau yn y wers ac yn sicrhau bod y ffonau'n cael eu cloi'n ddiogel eto ar ôl eu defnyddio.

Beth fydd fy mhleintyn yn ei wneud amser cinio?

Bydd yr ysgol yn datblygu'r rhaglen allgyrsiol ar ddechrau tymor mis Medi er mwyn sicrhau bod yna weithgareddau y gall pob disgybl ymwneud â nhw.

Mae fy mhleintyn yn defnyddio eu ffôn i dynnu llun o'u hamserlen – sut byddan nhw'n gwybod pa wersi sydd ganddyn nhw?

Byddwn yn rhoi 'cynlluniwr' i bob disgybl yn yr ysgol er mwyn iddynt allu cofnodi gwybodaeth bwysig, gan gynnwys eu hamserlen, fel eu bod yn gwybod i ble maen nhw'n mynd o un wers i'r llall.

Beth yw manteision ysgol ddi-ffôn?

Yn ddiweddar, cynhaliodd Yondr arolwg o fwy na 900 o ysgolion partner i fesur effeithiau creu amgylcheddau addysgol di-ffôn. Gwelodd yr ysgolion hyn gynnydd nodedig mewn sawl maes:

- gwelodd 65% o'r ysgolion welliant mewn perfformiad academaidd
- gwelodd 74% o'r ysgolion welliant yn ymddygiad myfyrwyr
- gwelodd 83% o'r ysgolion welliant yn ymgysylltiad myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth

A oes unrhyw ymchwil i gefnogi penderfyniad yr ysgol?

Mae tystiolaeth sylweddol bod defnyddio cyfryngau cymdeithasol trwy fynediad rheolaidd at ddyfais symudol yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl plant. Er enghraifft "mae pobl ifanc yn eu harddegau sy'n treulio 6 i 9 awr yr wythnos ar gyfryngau cymdeithasol 47% yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn anhapus na'r rhai sy'n defnyddio llai ar gyfryngau cymdeithasol" ([Twenge](#)). "Mewn 36 allan o 37 o wledydd mae unigrwydd yn yr ysgol wedi cynyddu ers 2012 (pan ddechreuodd y cyfryngau cymdeithasol gynnwys botymau cymeradwyo a hoffi) ac mae wedi dyblu, yn fras, yn Ewrop"

Wrth gwrs, "Dyw ffonau clyfar a chyfryngau cymdeithasol ddim yn effeithio ar unigolion yn unig. Maen nhw'n effeithio ar grwpiau. Wrth i ffonau clyfar ddod yn gyffredin fe wnaethon nhw drawsnewid perthnasoedd cyfoedion a gwedd bywyd bob dydd i bawb. Mae'n anoddach dechrau sgwrs achlysurol pan fydd pawb yn syllu i lawr ar ffôn" (Twenge a Haidt)

Mewn adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan ESTYN ("[Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein Hathrawon](#)"), roedd pum prif thema yn gysylltiedig â ffonau symudol fel y'u nodwyd gan y disgyblion, sef:

- pwysau gan gyfoedion i gael nifer uchel o 'ffrindiau' ar-lein, 'hoffi' a sylwadau ar broffiliau
- bwlio ar-lein, postio sylwadau niweidiol am gyfoedion, yn enwedig sylwadau am ymddangosiad
- gwrthrycholiad rhywiol o luniau merched gan fechgyn; gofyn am, anfon a rhannu ffotograffau o noethni neu led-noethni
- swyno trwy dwyll, ceisiadau digymell am ffrindiau, neu ddieithriaid neu'r rhai sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol ffug yn mynnu lluniau o noethni
- Agweddau negyddol tuag at gymeriadau benywaidd a/neu pan fydd merched yn chwarae gemau digidol..

Yn eu hastudiaeth achos ar ysgol uwchradd yn Ne Cymru, sef: [Datblygu diwylliant effeithiol ar gyfer dysgu](#) : nododd ESTYN :

Elfen allweddol o'r 'diwylliant ar gyfer dysgu' yw cael gwared ar ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol. Cyflawnwyd hyn trwy ymagwedd gyson at unrhyw ddefnydd o ffôn. Mae disgyblion a rhieni yn deall canlyniadau defnyddio'r ffôn ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio'u ffonau yn yr ysgol o ganlyniad. Cafwyd buddion sylweddol yn sgil yr ymagwedd hon, yn academaidd ac yn fugeiliol, heb unrhyw darfu ym mron pob gwrs oherwydd y defnydd o ffonau a disgyblion yn mwynhau gemau bwrdd mewn grwpiau amser cinio, yn hytrach na defnyddio'u dyfeisiau.